

Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

DARLLENWCH Y NODIADAU CANLYNOL YN OFALUS CYN CWBLHAU OS GWELWCH YN DDA

- Mae grant marwolaeth yn daladwy'n awtomatig ar eich marwolaeth:
 - pan ydych yn aelod cyfredol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL); neu
 - os oes gennych fuddion gohiriedig yng Nghronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf; neu
 - os ydych yn marw o fewn 10 mlynedd o dderbyn eich pensiwn o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a'ch bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad eich marwolaeth.
 - Y lefel o grant marwolaeth sy'n daladwy yw:
 - 3 x cyflog pensiynadwy blynyddol mewn perthynas ag aelod cyfredol o CPLIL;
 - 5 x pensiwn cronodig ynghyd â chodiad pensiynau cronol mewn perthynas ag aelod gohiriedig;
 - 10 x pensiwn blynyddol llai unrhyw daliadau sydd eisoes wedi'u gwneud mewn perthynas ag aelod sy'n bensiynwr o dan 75 mlwydd oed
- Dalier sylw: os ydych yn gweithio'n rhan-amser, caiff eich grant marwolaeth ei gyfrifo yn ôl eich gwir gyflog pensiynadwy yn hytrach na'ch cyflog tybiannol cyfwerth ag amser llawn.**
- Gallwch fynegi dymuniad i gynnig un neu ragor o unigolion, neu sefydliad, i dderbyn y grant marwolaeth sy'n daladwy pan fyddwch yn marw.
 - Y fantais o Fynegi Dymuniad yw y telir y grant marwolaeth yn gyflym, heb orfod disgwyl sawl wythnos o bosibl i'ch Ystad gael ei setlo. Mantais arall yw na fydd y taliad yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch Ystad, gan osgoi unrhyw gyfrifoldeb Treth Etifeddiant.
 - Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ffurflen Mynegi Dymuniad, ynghyd â'r nodiadau hyn, a'u cadw'n ddiogel ar gyfer eich cofnodion. Tra bod yn rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu, o dan Gyfraith Pensiwn, gadw'r hawl i ddiystyru unrhyw fynegiant o dymuniad, pwrpas y ffurflen hon yw eich cynorthwyo i wneud cynlluniau ariannol priodol mewn achos marwolaeth gynnar.
 - Gallwch ddiwygio eich mynegiant o dymuniad(au) ar unrhyw adeg trwy lenwi ffurflen arall, a fydd yn dirymu unrhyw fynegiant blaenorol o dymuniad. Os ydych yn dymuno diwygio unrhyw fynegiant blaenorol o dymuniad, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn yn y cyfeiriad isod.
 - Ar gyfer talu Grant Marwolaeth YN UNIG y bwriedir y ffurflen hon ac nid yw'n berthnasol o gwbl i daliad pensiwn y sawl sy'n eich goroesi ar ôl i chi farw. Os ydych yn cyd-fyw, yna fe'ch cynghorir i lenwi Ffurflen Partner sy'n Cyd-fyw ar wahân ar gyfer taliad pensiwn y sawl sy'n goroesi gan NAD yw hyn yn digwydd yn awtomatig, fel gyda thaliad pensiwn priod neu bartner sifil cofrestredig.
 - Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'i rhwymo'n gyfreithiol gan y ffurflen hon. Er mwyn i'r manteision treth fod yn berthnasol, rhaid i'r gronfa gadw disgrisiwn llwyr yng nghyswllt dyrannu'ch grant marwolaeth.
 - Os oes mwy nag un buddiolwr arfaethedig, gofalwch fod y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.
 - Ni allwch ddatgan pwy fyddai'n elwa nesaf pe bai eich buddiolwr enwebedig gwreiddiol yn marw o'ch blaen. Pe bai hynny'n digwydd, dylech lenwi ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth newydd.
 - Os oes angen mwy o le arnoch i nodi mwy na thri buddiolwr, rhowch eu manylion ar dudalen ar wahân.
 - Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os ydych angen rhagor o fanylion, cysylltwch â'r:

Adran Bensiynau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Odway, Porth, Rhondda, CF39 9ST.



Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

Eich Manylion Personol

Enw:	Dyddiad Geni:
Rhif Yswiriant Gwladol:	
Cyfeiriad Cartref:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 1

Cyfran

Enw:	%
Dyddiad Geni:	Perthynas:
Cyfeiriad:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 2

Cyfran

Enw:	%
Dyddiad Geni:	Perthynas:
Cyfeiriad:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 3

Cyfran

Enw:	%
Dyddiad Geni:	Perthynas:
Cyfeiriad:	
	Cod Post:

Datganiad

Rydw i wedi darllen y nodiadau trosodd. Gofynnaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf) ddefnyddio disgrisiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n ddyledus dan Gyngllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion a/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os oes mwy nag un) gan ei rannu yn ôl fy nymuniad fel y'i mynegwyd.

Llofnodwyd:

Dyddiad:



cplll



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR